Cofnodion cyfarfod y **CYNGOR** a gynhaliwyd nos Fercher, 19 Ebrill 2023, am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine (Dirprwy Faer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs J. Butterfield YH MBE,
Mrs. J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney,
Mrs. J. Hughes, R. James, K. R. Jones, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor,
Mrs W. M. Mullen-James, A. J. Rutherford,
D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**161. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs D. L. King, P. Prendergast a Ms. V. Roberts.

**162. COFNODION**

Cadarnhau bod cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a'i bwyllgorau isod yn gywir (copïau ynghlwm):

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod Arbennig y Cyngor | - | 8 Mawrth 2023 | - Cofnodion rhifau 126-146 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 15 Mawrth 2023 | - Cofnodion rhifau 147-160 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Pwyllgor Cynllunio | - | 15 Mawrth 2023 | - Cofnodion rhifau 46-50 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd D. Simmons a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Pwyllgor Cynllunio | - | 5 Ebrill 2023 | - Cofnodion rhifau 51-53 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd D. Simmons ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Mellor a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol | - | 5 Ebrill 2023 | - Cofnodion rhifau 51-64 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir a'u cadarnhau i'w gweithredu.*

## 163. CYFLWYNIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – PROSIECTAU AMDDIFFYN YR ARFORDIR CANOL Y RHYL/PRESTATYN A PHROSIECT PARTH Y CYHOEDD A PHRIFFYRDD Y RHYL (CAM 1)

Croesawodd y Dirprwy Faer Mr Tony Ward, Mr Tim Towers a Mr Mike Jones o Gyngor Sir Ddinbych a Mr Chris Hull o Balfour Beatty i'r cyfarfod, a'u gwahodd i roi diweddariad i'r aelodau ar Gam 1 y prosiect.

Cynghorodd Mr Hull:

- ynghylch sefydlu compownd ar Rodfa'r Môr, cau maes parcio Stryd y Cei, llunio mynedfa i'r safle gyferbyn â Stryd John a chau'r Promenâd yn rhannol a dechrau llunio mynedfa i'r safle o gompownd Rhodfa'r Môr dros y Promenâd.

- y bydd y safle gyferbyn â Stryd John yn cael ei adfer yn 2025 pan fydd y prosiect wedi'i gwblhau yn union fel yr oedd yn flaenorol, yn cynnwys maes chwarae.

- defnyddir maes parcio Stryd y Cei i storio deunyddiau a bydd byrddau glas solid yn cael eu gosod o'i amgylch i amddiffyn y deunyddiau.

- bydd rhannau eraill o'r Promenâd o Stryd John i'r SeaQuarium yn weithredol o 24 Ebrill hyd at yr Hydref 2025.

- bydd rhaid cau rhai o'r mannau parcio yn y Maes Parcio Canolog.

- byddai adeiladu'r wal gynnal yn dechrau ddiwedd mis Mai  2023 gan weithio rhwng llanw a thrai tan yr Haf 2025.

- byddai'r gwaith ar estyniad y ramp mynediad i'r traeth a'r llusgydd creigiau yn dechrau ddiwedd mis Ebrill 2023 o'r Splashpoint i SeaQuarium, eto'n gweithio rhwng llanw a thrai tan y Gwanwyn 2024.

- wrth symud tuag at Brestatyn, byddai compownd yn cael ei sefydlu wrth Glwb cwrs golf y Rhyl, llunio mynedfa i'r safle oddi ar Ffordd yr Arfordi, yn cynnwys ardal storio a dechrau'r gwaith gosod i fonitro'r tir.

- wrth edrych i'r dyfodol, y gobaith oedd cwblhau'r gwaith hwyluso symudiadau yn ystod yr wythnosau nesaf a chwblhau monitro'r tir ddiwedd mis Mai.

- byddai gwaith ar yr argloddiau yn dechrau ym mis Mai, y gwaith cryfhau'r cwlferti yn dechrau ym mis Mehefin a byddai gwaith yn ymwneud â'r traeth yn dechrau ym mis Mai 2023 hefyd, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol cau rhan o'r Promenâd o Ffordd Garford i Lonydd Gwyrdd o fis Mai tan fis Hydref 2023.

Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau'r aelodau, cynghorodd Mr Hull a'r swyddogion:

- y byddai 40/50 o fannau parcio ar y dde wrth fynd i mewn i'r Maes Parcio Canolog ar gau, ac y byddai mannau parcio amgen yn cael eu hysbysu drwy gyfrwng datganiadau i'r wasg.

- bydd rhannu gwybodaeth / cyfathrebu yn digwydd drwy gyfrwng arwyddion ar hysbysfyrddau ar y safle.

- roeddynt yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig ynghylch rheoli pobl ar ddyddiau digwyddiadau fel y Sioe Awyr, a'r bwriad oedd y byddai'r torfeydd yn cael eu cyfeirio i ddwyrain y Promenâd, oddi wrth yr ardaloedd adeiladu.

- bod cyfleusterau parcio a theithio ac arwyddion clir yn cael eu hystyried ar gyfer dyddiau'r Sioe Awyr, yn enwedig wrth grybwyll colli mannau parcio yng nghanol y dref.

- roedd Strategaeth Gyfathrebu ar gyfer y prosiect a byddai'n cynnwys neges glir fod y Rhyl yn parhau yn agored i fusnes drwy gydol y prosiect.

- fod y swyddogion yn fodlon dod yn ôl at y Cyngor Tref i roi diweddariadau pellach ar gais i'r perwyl hynny.

Manteisiodd Mr Mike Jones ar y cyfle i roi diweddariad sydyn i'r aelodau am y prosiect Priffyrdd a Pharth y Cyhoedd, a oedd wedi bod yn aflwyddiannus yn ei gais am gyllid o'r Gronfa Ffyniant Bro, fel rhan o gais ehangach Dyffryn Clwyd.

O ganlyniad i hynny bu'n rhaid oedi a myfyrio eto ynghylch y cynllun, ac nid oedd wedi dileu'r syniad o gais arall yn rownd tri unwaith y derbynnir adborth, yn ogystal ag edrych am ffrydiau cyllid amgen.

Roeddynt yn gweithio gyda chydweithwyr yn Balfour Beatty i ystyried rhagor o waith dylunio a datblygu'r cynllun.

Diolchodd y Dirprwy Faer i Mr Hull a swyddogion Cyngor Sir Ddinbych am eu hamser.

## 164. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Dirprwy Faer at y digwyddiadau yr oedd y Maer wedi bod ynddynt yn ystod y mis diwethaf (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), a darllenodd yn uchel eiriau gan y Maer yn diolch i'r cynghorwyr am ddod i'w noson elusennol ar 30 Mawrth ym mwyty 1891 gan nodi fod y noson wedi codi dros £1,200 i'w thair elusen, sef Sefydliad Brenhinol y Badau Achub (RNLI), Cymdeithas Alzheimer a Chanolfan Merched Gogledd Cymru.

## 165. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY – MIS CHWEFROR 2023 (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

| Rhif Taleb | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1618 | Ymddiriedolaeth Cadwraeth Stêm y Rhyl | Tâl yswiriant ar gyfer Billy a'r plac enw | 254.80 |
| 1619 | Delwedd Cyf. | Cofrestru enw parth | 24.47 |
| 1620 | Y Cynghorydd Mrs D. L. King | Treuliau'r Maer – mis Mawrth 2023 | 140.50 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£419.77** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

**166. CAIS I SIARAD Â'R CYNGOR: CYNGOR SIR DDINBYCH / PRIFYSGOL BANGOR – MENTER MANNAU GWYRDD YN Y RHYL**

Cyfeiriodd y Dirprwy Faer at gais gan Gyngor Sir Ddinbych a Phrifysgol Bangor (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i siarad â'r Cyngor Tref ynghylch y fenter uchod, drwy gyfrwng y Cynghorydd B. Mellor.

Cynghorodd y Cynghorydd B. Mellor yr hoffent wneud cyflwyniad cryno i'r Cyngor Tref cyn cynnal yr arolwg a'r astudiaeth yn ystod yr haf.

Ychwanegodd Clerc y Dref, petai'r aelodau yn hoffi derbyn y cyflwyniad yna gallai fod angen ychwanegu dau gyflwyniad ar un agenda'r Cyngor i gynnwys yr holl gyflwyniadau mewn cyfnod amser rhesymol, a gofynnodd am ganiatâd yr aelodau i wneud hynny.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais a rhoi caniatâd i Glerc y Dref drefnu derbyn dau gyflwyniad ar yr un noson, petai angen.*

**167. ADOLYGU POLISÏAU: CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn gofyn i'r aelodau ailgadarnhau neu ddiwygio polisi'r Cyngor Tref ynghylch penodi cynrychiolwyr ar gyrff allanol.

***PENDERFYNWYD*** *ailgadarnhau'r polisi.*

**168. EITEM YCHWANEGOL: YSWIRIANT Y CYNGOR TREF**

Adroddodd Clerc y Dref fod yswiriant y Cyngor Tref yn mynd i ddarfod ar ddiwedd mis Mai 2023 a gofynnodd am awdurdod i roi awdurdod dirprwyedig i'r Is-bwyllgor Asesu Risgiau i benodi darparydd yswiriant newydd erbyn diwedd mis Mai 2023.

***PENDERFYNWYD*** *rhoi'r awdurdod i weithredu i'r Is-bwyllgor Asesu Risgiau.*

**169. DIWEDDU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes cyhoeddodd y Dirprwy Faer ddiwedd y cyfarfod.

Dirprwy Faer: ………….……………..

Dyddiad: …………….….……..